


Pobl ifanc a phrofiad gwaith

Canllaw cryno ar iechyd a diogelwch i gyflogwyr



Mae hyn yn fersiwn
Cwmraeg o'r daflen
INDG364(rev1), a
gyhoeddwyd 06/13 yw hwn

Gall cyflwyno pobl ifanc i fyd gwaith eu helpu i ddeall yr amgylchedd gwaith, dewis gyrfa ar gyfer y dyfodol neu baratoi ar gyfer cyflogaeth. Gall gwerthfawrogiad o risgiau'r gweithle a sut i ddelio â hyn fod yn un o'r manteision mwyaf o ganlyniad i leoliad gwaith.

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon wedi ei hanelu at gyflogwyr sy'n darparu cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc. Bydd yn eich helpu chi, a'r rhai sy'n gyfrifol am brofiad gwaith yn eich busnes, i sicrhau bod iechyd a diogelwch pobl ifanc wedi eu diogelu tra byddant gyda chi.

Dan gyfraith iechyd a diogelwch, mae myfyrwyr profiad gwaith yn gyflogeion i chi. Ni ddylech eu trin yn ddim gwahanol i bobl ifanc eraill a gyflogir gennych.

Efallai y bydd gennych brofiad sylweddol o gyflogi pobl ifanc yn llwyddiannus neu gymryd myfyrwyr profiad gwaith. Os nad oes, mae yna rai camau y bydd angen i chi eu cymryd.

Mae angen i ysgolion a cholegau, neu sefydliadau eraill sy'n trefnu lleoliadau, wirio bod gennych drefniadau rheoli risg. Gellid nodi sgysiau rhyngoch chi a threfnwr y lleoliad er gwybodaeth.

Dylai derbyn myfyrwyr profiad gwaith fod yn syml. Ni ddylai arwain at greu gwaith papur diangen. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio sut i'w gadw'n syml.

Diffiniadau o bobl ifanc a phlant yn ôl oedran

- Mae **person ifanc** yn unrhyw un dan 18 oed.
- Mae **plentyn** yn unrhyw un nad yw wedi cyrraedd yr oedran gadael ysgol gorfodol eto. Bydd disgyblion yn cyrraedd yr oedran gadael ysgol gorfodol yn y flwyddyn ysgol pan fyddant yn troi 16 oed.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Defnyddiwch eich trefniadau presennol i asesu a rheoli risgiau i bobl ifanc.

Dylid osgoi ailwneud eich asesiad o'r risgiau os yw myfyriwr newydd o lefel cyffredinol debyg o aeddfedwydd a dealltwriaeth, ac os nad oes ganddo anghenion penodol neu atodol (dylai'r trefnwr neu'r rhiant roi gwybod i chi os oes).

Os nad ydych yn cyflogi person ifanc ar hyn o bryd, ac nad ydych wedi gwneud hynny yn y blynyddoedd diwethaf ac yn cymryd myfyriwr profiad gwaith am y tro cyntaf, neu un gydag anghenion penodol, adolygwch eich asesiad risg cyn iddynt ddechrau.

Trafodwch y lleoliad o flaen llaw gyda'r trefnwyr. Ystyriwch beth maen nhw a rhieni neu ofalwyr yn rhoi gwybod ichi am allu corfforol a seicolegol y myfyriwr ac am unrhyw anghenion penodol, er enghraifft, oherwydd cyflyrau iechyd neu anawsterau dysgu.

Cadwch unrhyw waith atodol yn gymesur â'r amgylchedd.

- Ar gyfer lleoliadau mewn **amgylcheddau risg isel**, megis swyddfeydd neu siopau, **gyda risgiau dydd i ddydd** fydd yn bennaf yn gyfarwydd i'r myfyriwr, dylai eich trefniadau presennol ar gyfer cyflogeion eraill fod yn ddigon.
- Ar gyfer amgylcheddau gyda risgiau llai cyfarwydd i'r myfyriwr (e.e. mewn cyfleusterau cydosod ysgafn neu becynnu), bydd angen i chi wneud trefniadau i reoli'r risgiau – byddai hyn yn cynnwys ymsefydlu, goruchwyllo, cyfarwyddo â'r safle, ac unrhyw gyfarpar amddiffynnol fydd angen.
- Ar gyfer lleoliad mewn **amgylchedd risg uwch**, megis adeiladu, amaeth a gweithgynhyrchu, bydd angen i chi:
 - ystyried pa waith fydd y myfyriwr yn ei wneud neu'n arsylwi arno, y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw a sut i'w rheoli;
 - eich bodloni eich hun bod trefniadau cyfarwyddo, hyfforddiant a goruchwyllo wedi eu hystyried yn briodol a'u bod yn gweithio yn ymarferol.

Efallai y bydd angen ystyried, yn arbennig ar gyfer **amgylcheddau risg uwch**, unrhyw **ffactorau penodol** y mae'n rhaid eu rheoli i bobl ifanc, gan gynnwys bod yn agored i ymbelydriad, sŵn a dirgryniad, sylweddau gwenwynig, neu dymheredd eithafol.

Pan fo'r ffactorau penodol hyn yn bodoli yn eich gweithle, dylech eisoes gael mesurau rheoli ar waith. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i derfynau oedran cyfreithiol gofynnol ar ddefnyddio rhai cyfarpar a pheiriannau (e.e. wagenni fforch godi a rhai peiriannau gwaith coed). Ystyriwch a oes angen i chi wneud unrhyw beth arall i reoli'r risgiau i bobl ifanc.

Esboniwch i rieni/gofalwyr plant beth yw'r risgiau arwyddocaol a beth a wneir i'w rheoli. Gellir gwneud hyn ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf syml ac addas, yn cynnwys ar lafar, ac yn aml iawn fe wneir hyn trwy'r ysgol neu'r coleg.

Pan fyddwch yn ymsefydlu myfyryr, esboniwch y risgiau a sut y cânt eu rheoli, gan wirio eu bod yn deall yr hyn a ddywedwyd wrthynt.

Gwiriwch fod myfyryr yn gwybod sut i nodi unrhyw bryderon am iechyd a diogelwch.

Hyfforddiant a goruchwyliaeth

Mae nifer o bobl ifanc yn debygol o fod yn newydd i'r gweithle, ac mewn rhai achosion byddant yn wynebu risgiau anghyfarwydd, o'r swydd y byddant yn ei gwneud ac o'u hamgylchedd. Bydd angen i chi ddarparu cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth glir a digonol iddynt i'w galluogi i weithio heb greu risg iddyn nhw eu hunain na phobl eraill.

Mae pobl ifanc yn debygol o fod angen mwy o oruchwyliaeth nag oedolion. Bydd goruchwyliaeth dda yn eich helpu i gael syniad clir o alluoedd y person ifanc a'i gynydd yn y swydd ac i fonitro pa mor effeithlon yw ei hyfforddiant.

Bydd angen i chi ystyried faint o hyfforddiant sydd ei angen. Mae angen ymagwedd gymesur, er enghraifft, ni fyddai disgwyl i fusnes risg isel gael hyfforddiant technegol maith. Felly hefyd, os yw myfyriwr ar leoliad profiad gwaith byrdymor, dylid addasu anghenion ymsefydlu a hyfforddiant i'r dasg y bydd yn ei chyflawni.

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod pobl ifanc wedi deall y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant a fydd yn cynnwys, er enghraifft:

- y peryglon a'r risgiau yn y gweithle;
- y rhagofalon iechyd a diogelwch sydd ar waith.

Mewn gweithfannau ble ceir cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, gallant chwarae rôl werthfawr yn gynnar trwy:

- gyflwyno'r person ifanc i'r gweithle;
- helpu gyda hyfforddiant parhaus;
- roi adborth ar bryderon penodol.

Fel cyflogeion, mae gan bobl ifanc ddyletswydd i gymryd gofal o'u hiechyd au diogelwch eu hunain a phobl eraill y mae eu gweithredoedd yn gallu effeithio arnynt.

Mae hyn yn cynnwys cydweithredu gyda chi trwy wrando'n ofalus, dilyn cyfarwyddiadau, defnyddio unrhyw offer diogelwch a ddarparwyd gennych a chymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol.

Beth ddywed y gyfraith

Dan gyfraith iechyd a diogelwch, rhaid i bob cyflogwr sicrhau, **cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol**, iechyd a diogelwch pob un o'i cyflogeion, waeth beth yw eu hoed. Yn rhan o hyn, mae yna ystyriaethau penodol i'w gwneud ar gyfer pobl ifanc.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion yn y gyfraith. Dylai gweithredu'r gofynion fod yn syml, a gan amlaf dylai'r trefniadau rheoli risg angenrheidiol eisoes fod ar waith.

Beth mae 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol' yn golygu?

Mae hyn yn golygu cydbwysu'r lefel o risg yn erbyn y mesurau sydd eu hangen i reoli'r gwir risg yn nhermau arian, amser neu drafferth. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi weithredu os byddai'n gwbl anghymesur i'r lefel o risg.

Dan y **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**, mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau nad yw pobl ifanc a gyflogir gennych yn agored i risg oherwydd:

- diffyg profiad;
- diffyg ymwybyddiaeth o risgiau presennol neu bosibl;
- diffyg aeddfedrwydd;

Rhaid i chi ystyried:

- cynllun y gweithle;
- yr asiantau corfforol, biolegol a chemegol y byddant yn agored iddynt;
- sut byddant yn trin cyfarpar gwaith;
- sut mae'r gwaith a phrosesau wedi eu trefnu;
- faint o hyfforddiant iechyd a diogelwch sydd ei angen;
- risgiau o asiantau, prosesau a gwaith penodol.

Dylai'r ystyriaethau hyn fod yn syml mewn gweithle risg isel, er enghraifft, mewn swyddfa. Mewn gweithfannau risg uwch, mae'r risgiau yn debygol o fod yn fwy a bydd angen talu mwy o sylw i sicrhau eu bod wedi eu rheoli'n briodol.

Mae tudalen y we cwstiynau cyffredin yr HSE ar bobl ifanc yn y gwaith yn darparu canllaw pellach ar wneud yr ystyriaethau angenrheidiol (www.hse.gov.uk/youngpeople/faqs.htm).

Mae angen i chi ystyried a yw'r gwaith y bydd y person ifanc yn ei wneud:

- **y tu hwnt** i'w gallu corfforol neu seicolegol:
 - nid oes rhaid i hyn fod yn gymhleth, gallai fod mor syml â gwirio bod person ifanc yn gallu codi pwysau'n ddiogel a chofio a dilyn cyfarwyddiadau;
- yn cynnwys amlygiad **niweidiol** i sylweddau sy'n wenwynig, a allai achosi cancer, a allai niweidio plentyn heb ei eni, neu a allai effeithio ar iechyd dynol mewn unrhyw ffordd arall:
 - byddwch yn ymwybodol o sylweddau y gallai person ifanc ddod i gysylltiad â nhw yn ei waith, ystyried lefelau amlygiad a sicrhau y bodlonir cyfyngiadau cyfreithiol;
- yn cynnwys amlygiad **niweidiol** i ymbelydredd:
 - sicrhau bod amlygiad person ifanc i ymbelydriad wedi ei gyfyngu ac nad yw'n uwch na'r terfyn dos a ganiateir;
- yn ymwneud â risg o ddamweiniau **na ellir eu canfod neu eu hosgoi yn rhesymol** gan bobl ifanc oherwydd sylw annigonol i ddiogelwch neu ddiffyg profiad neu hyfforddiant:
 - efallai y bydd person ifanc yn anghyfarwydd â risgiau 'amlwg'. Dylai cyflogwr ystyried yr angen am hyfforddiant penodol / goruchwyliaeth agosach.
- yn cyflwyno risg i iechyd o ganlyniad i oerfel, gwres, sŵn neu ddirgryniad **eithafol**:
 - gan amlaf, ni fydd pobl ifanc dan unrhyw risg mwy nag oedolion ac ar gyfer gweithfannau sy'n cynnwys y peryglon hyn, mae'n debygol y bydd mesurau rheoli ar waith yn barod.

Ni ddylai plentyn fyth gyflawni gwaith o'r fath sy'n cynnwys y risgiau hyn, p'un a yw wedi ei gyflogi'n barhaol neu dan hyfforddiant megis profiad gwaith.

Gall person ifanc, nad yw'n blentyn, gyflawni gwaith sy'n cynnwys y risgiau hyn os:

- yw'r gwaith yn angenrheidiol ar gyfer ei hyfforddiant;
- yw'r gwaith yn cael ei oruchwylio'n briodol gan unigolyn cymwys;
- mae'r risgiau wedi eu lleihau i'r lefel isaf, **cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol** (gweler yr esboniad ar dudalen 3).

Bydd darparu goruchwyliaeth i weithwyr ifanc a monitro eu cynnydd yn eich helpu i nodi ble fydd angen addasiadau atodol.

Rhaid i chi adael i rieni neu warcheidwaid unrhyw blentyn wybod am y risgiau a'r mesurau posibl i'w rheoli. Gellir gwneud hyn ym mha bynnag fodd sydd hawsaf ac yn addas, gan gynnwys ar lafar.

Byddwch eisoes yn gyfarwydd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'ch gweithle ac fe ddylech fod mewn sefyllfa i ystyried beth sydd neu nad yw yn briodol.

Materion eraill y dylech eu hystyried

Mae yna asiantau, prosesau a gwaith arall y dylid eu hystyried wrth gyflogi person ifanc. Nid yw'r rhestr ganlynol yn cwmpasu'r rhain i gyd, ond os yw rhai o'r materion yn berthnasol i'ch gweithle gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr HSE (gweler 'Mwy o wybodaeth' i gael dolenni'r we):

- asiantau biolegol;
- gweithio gyda chemegau;
- gweithio gyda phlwm a phrosesau plwm;
- asbestos;
- gweithio gyda ffrwydrion, gan gynnwys tân gwyllt;
- gweithio gydag aer cywasgedig;
- adeiladu, gan gynnwys dymchwel;
- diogelwch trydan;
- amaethyddiaeth;
- gweithgynhyrchu.

Oriau gwaith a gweithwyr ifanc

Nid yw oriau gwaith wedi eu llywodraethu gan gyfraith iechyd a diogelwch.

Mae gan bobl ifanc a phlant wahanol hawliau cyflogaeth i weithwyr sy'n oedolion ac maent yn agored i amddiffyniadau parthed yr oriau y gallant weithio.

Rheoliadau eraill

Ni ddylid cyflogi plant dan yr oedran gadael ysgol gorfodol mewn gweithfannau diwydiannol megis ffatrioedd, safleoedd adeiladu ac ati, ac eithrio pan fyddant ar brofiad gwaith.

Mae plant dan 13 yn gyffredinol wedi eu gwahardd o unrhyw fath o gyflogaeth. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i sefydlu deddfau lleol ar y mathau o waith, ac oriau o waith, y gall plant rhwng 13 a'r ei wneud.

Cael gwybod mwy

Am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch a phobl ifanc, ewch i'n tudalennau pobl ifanc: www.hse.gov.uk/youngpeople/

Health and safety made simple: The basics for your business Taflen INDG449
HSE Books 2011 www.hse.gov.uk/pubns/INDG449.htm
Microsafle: www.hse.gov.uk/simple-health-safety/manage.htm

Mae'r *The health and safety toolbox: How to control risks at work* yn darparu meysydd cyngor defnyddiol, sy'n berthnasol i bob gweithle:
www.hse.gov.uk/toolbox/

Canllaw pellach i'ch helpu i ddiogelu dechreuwyr newydd:
www.hse.gov.uk/vulnerable-workers/new-to-the-job.htm

Rhagor o wybodaeth ar oriau gwaith i weithwyr ifanc:
www.gov.uk/child-employment/minimum-ages-children-can-work

Dolenni defnyddiol ar gyfer materion eraill y gall fod angen i chi eu hystyried

- Asiantau biolegol: www.hse.gov.uk/biosafety/
- Gweithio gyda chemegau: www.hse.gov.uk/chemicals/
- Gweithio gyda phlwm a phrosesau plwm: www.hse.gov.uk/lead/
- Asbestos: www.hse.gov.uk/asbestos
- Gweithio gyda ffrwydrion, gan gynnwys tân gwyllt: www.hse.gov.uk/explosives/
- Gweithio gydag aer cywasgedig: www.hse.gov.uk/compressedair/
- Adeiladu, gan gynnwys dymchwel:
www.hse.gov.uk/construction/safetytopics/stability.htm
- Diogelwch trydanol: www.hse.gov.uk/electricity/
- Amaethyddiaeth: www.hse.gov.uk/agriculture/
- Gweithgynhyrchu: www.hse.gov.uk/manufacturing/

Mwy o wybodaeth

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i dynnu sylw at anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid ar gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Gellir dod o hyd i'r daflen hon ar www.hse.gov.uk/pubns/indg364.htm.

©  *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddiwyd gyntaf 06/13.